OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 692 (Cy. 84)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Pen-y-Clip, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *1 Mawrth 2013* |
| *Yn dod i rym* | *12 Mawrth 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd yr A55 (Caer – Bangor) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Mawrth 2013 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Pen-y-Clip, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2013.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn:-

(i) ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(ii) ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnod o ddyddiadau cau fel y pennir yn Atodlen 7, sy'n dechrau am 18:00 o'r gloch ar 12 Mawrth 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

(iii) ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn;

(iv) ystyr "marciau ymyl y gerbytffordd" ("*edge of the carriageway markings*") yw'r marciau a ddangosir yn y rhifau Diagram 1002.1 a 1009 yn Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2002 **(3)**.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiadau**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 14, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, ac eithrio cerbyd esempt, ar hyd y gerbytffordd tua'r dwyrain na'r gorllewin ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** (1) Tra bo cerbydau wedi eu gwahardd gan erthygl 3 rhag symud yn y gerbytffordd tua'r dwyrain ond, yn unol ag erthygl 14, heb eu gwahardd yn y gerbytffordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd er mwyn peri neu ganiatáu iddo:

(a) mynd yn lôn allanol y gerbytffordd tua'r gorllewin i unrhyw gyfeiriad heblaw'r dwyrain;

(b) mynd i unrhyw gyfeiriad heblaw'r dwyrain drwy unrhyw un o'r bylchau yn llain ganol y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn hwn.

(2) Tra bo cerbydau wedi eu gwahardd gan erthygl 3 rhag symud yn y gerbytffordd tua'r gorllewin ond, yn unol ag erthygl 14, heb eu gwahardd yn y gerbytffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd er mwyn peri neu ganiatáu iddo:

(a) mynd yn lôn allanol y gerbytffordd tua'r dwyrain i unrhyw gyfeiriad heblaw'r gorllewin;

(b) defnyddio neu ganiatáu i ddefnyddio cerbyd mewn modd sy'n goddiweddyd cerbyd arall ar y gerbytffordd tua'r dwyrain ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn;

(c) mynd i unrhyw gyfeiriad heblaw'r gorllewin drwy'r bylchau yn llain ganol y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 14, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw

gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni 3 a 4 i'r Gorchymyn hwn.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 14, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

**7.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 14, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd sy'n 3.20 metr o led neu ragor ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 6 i'r Gorchymyn hwn, na pheri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd o'r fath deithio ar y darnau hynny o'r gefnffordd.

**Atal**

**8.** Drwy hyn, mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd (yr A55) (Ardal Pen-y-Clip, Gwynedd) (Traffig Unffordd) 1994**(4)** wedi eu hatal i'r graddau y maent yn ymwneud â lon allanol y gerbytffordd tua'r dwyrain ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 ar yr adegau hynny pryd y bydd y gerbytffordd tua'r gorllewin ar gau yn unol ag erthygl 3.

**9.** Drwy hyn, mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Ardal Pen-y-Clip, Gwynedd) (Dileu Cyfyngiadau) 1994**(5)** wedi eu hatal mewn perthynas â'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pryd y bydd y cyfyngiadau a bennir yn erthygl 6 yn weithredol.

**10.** Drwy hyn, mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Penmaenmawr – Morfa Conwy, Conwy) (Dileu Cyfyngiadau) 2004(6) wedi eu hatal mewn perthynas â'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pryd y bydd y cyfyngiadau a bennir yn erthygl 6 yn weithredol.

**11.** Drwy hyn, mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd (yr A55) (Llanfairfechan, Gwynedd) (Dileu Cyfyngiadau) 1989**(7)** wedi eu hatal mewn perthynas â'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pryd y bydd y cyfyngiadau a bennir yn erthygl 6 yn weithredol.

**12.** Drwy hyn, mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd (yr A55) (Penmaenmawr, Gwynedd) (Dileu Cyfyngiadau) 1989**(8)** wedi eu hatal mewn perthynas â'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pryd y bydd y cyfyngiadau a bennir yn erthygl 6 yn weithredol.

**13.** Drwy hyn, mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Abergwyngregyn, Gwynedd) (Dileu Cyfyngiadau) 1994**(9)** wedi eu hatal mewn perthynas â'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pryd y bydd y cyfyngiadau a bennir yn erthygl 6 yn weithredol.

## Cymhwyso

**14.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**15.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 1 Mawrth 2013

*R Morgan*
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** O.S. 2002/3113
**(4)** O.S. 1994/192
**(5)** O.S. 1994/790
**(6)** O.S. 2004/2876 (Cy.247)
**(7)** O.S. 1989/2158
**(8)** O.S. 1989/1958
**(9)** O.S. 1994/3087

## YR ATODLENNI

Darnau o Gefnffordd ym Mhen-y-clip ym Mwrdeistref Sirol Conwy

### ATODLEN 1
### Terfynau'r gwrthlif

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 97 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 15, cylchfan Llanfairfechan, hyd at bwynt 208 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt trosbont Traphont y Red Gables.

### ATODLEN 2
### Terfynau'r cyfyngiadau o ran peidio â goddiweddyd

Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r dwyrain ar y pentir, sy'n ymestyn o bwynt 97 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 15, cylchfan Llanfairfechan, hyd at bwynt 208 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt trosbont Traphont y Red Gables.

### ATODLEN 3
### Cau Cyffordd Gorllewin Penmaenmawr

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r ffordd sirol a elwir Ffordd Bangor hyd at farciau ymyl y gerbytffordd ar ochr ddeheuol prif gerbytffordd y gefnffordd tua'r gorllewin.

### ATODLEN 4
### Gwahardd pob cerbyd yn ystod y cyfnod cau a therfyn cyflymder 40 mya.

1. Y darn hwnnw o'r gerbytffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt 100 metr i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 16, Cylchfan y Puffin, hyd at ganolbwynt yr ynys hollti ar y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 13, pentref Abergwyngregyn, gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 14, Cyfnewidfa Madryn, y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 15a a'r bylchau yn y llain ganol yn Atodlen 5.

2. Y darn hwnnw o'r gerbytffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o bwynt 100 metr i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 16, Cylchfan y Puffin, hyd at ganolbwynt trosbont Cyffordd 14, Cyfnewidfa Madryn, gan gynnwys y bylchau yn y llain ganol yn Atodlen 5.

## ATODLEN 5
## Terfynau'r bylchau yn y llain ganol

1. Y bwlch yn y llain ganol sydd rhwng pwynt 78 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt trosbont Traphont y Red Gables a phwynt 208 o fetrau i'r dwyrain o'r bont honno.

2. Y bwlch yn y llain ganol sydd rhwng pwynt 97 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 15, Cylchfan Llanfairfechan, hyd at bwynt 226 o fetrau i'r dwyrain o'r canolbwynt hwnnw.

## ATODLEN 6
## Cyfyngiadau ar Led Cerbydau

1. Y darn hwnnw o'r gerbytffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt 25 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 15, Cylchfan Llanfairfechan, hyd at ben pellaf y trwyniad lle y mae'r ffordd ymuno tua'r dwyrain yn ymuno â phrif gerbytffordd yr A55 wrth Gyffordd 18, Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno.

2. Y darn hwnnw o'r gerbytffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o ddechrau'r trwyniad lle y mae'r ffordd ymadael tua'r gorllewin yn ymrannu oddi wrth brif gerbytffordd yr A55 wrth Gyffordd 18, Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno, hyd at bwynt 25 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 15, Cylchfan Llanfairfechan, gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 18.

## ATODLEN 7

18:00 12 Mawrth 2013 – 07:30 14 Mawrth 2013
18:00 18 Mehefin 2013 – 07:30 19 Mehefin 2013
18:00 19 Mehefin 2013 – 07:30 20 Mehefin 2013
18:00 17 Medi 2013 – 07:30 19 Medi 2013
18:00 10 Rhagfyr 2013 – 07:30 11 Rhagfyr 2013
18:00 11 Rhagfyr 2013 – 07:30 12 Rhagfyr 2013